



# Gyrfaoedd - Cynllun gweithgaredd



## Paratoi

Argraffwch y daflen rhestr sgiliau – un i bob dysgwr neu un rhwng dau.  
Argraffwch y daflen fy sgiliau a thalentau – un i bob dysgwr.  
Argraffwch a thorrwch allan y cardiau gyrfa – un i bob grŵp.  
Argraffwch ddigon o gardiau gyrfa glân.

## Adnoddau

Rhestr Sgiliau  
Taflenni fy sgiliau  
a thalentau  
Cardiau gyrfa  
Cardiau gyrfa glân

## Cyflwyniad/cyd-destun

Cyflwynwch y gwahaniaeth rhwng swydd a gyrfa, gydag enghraifft.  
Swydd – Gwaith cyson lle mae rhywun yn cael ei dalu i wneud tasgau arbennig.  
Gyrfa – Swydd, sydd wedi'i dewis oherwydd diddordebau a chryfderau, i'w dilyn ar hyd eich oes.  
Er enghraifft, pan oeddwn i'n ifanc, roedd gen i swydd mewn archfarchnad.  
Pan oeddwn i wedi gadael yr ysgol, fe wnes i ddewis gyrfa ym maes addysg.  
Mae angen swydd arnom i ennill arian, rydym ni'n dewis gyrfa i wneud rhywbeth rydym ni'n teimlo'n gryf yn ei gylch.  
Ewch drwy'r cardiau gyda'r dosbarth cyfan, gan ddiffinio geiriau anodd a disgrifio cysyniadau anodd.

## Geirfa

Gyrfa, swydd,  
prifysgol,  
gwirfoddolwr

Amser  
10-20 munud

### Dosbarthu paciau o gardiau

Rhowch gardiau i bob bwrdd. Gadewch i'r dysgwyr eu harchwilio a'u trafod. Gofynnwch iddyn nhw ddewis un neu ddwy yrfa maen nhw'n eu hoffi a siarad â'i gilydd ynglŷn â pham maen nhw'n eu hoffi.

Amser  
30-60 munud

### Cryfderau

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eu sgiliau. Lluniwch fap meddwl dosbarth o'u hymatebion. Heriwch eu syniad ynghylch sgiliau drwy wahanu oddi wrth bynciau ysgol (e.e. cyfathrebwr da yn hytrach nag yn dda mewn iaith, yn rhesymegol yn hytrach nag yn dda mewn mathemateg). Defnyddiwch y rhestr sgiliau a ddarperir i weithio drwyddi gyda'r dosbarth. Ceisiwch newid pynciau yn sgiliau a dathlu sgiliau eraill nad ydyn nhw efallai wedi'u cydnabod.

### Taflen sgiliau a thalentau

Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r daflen fy sgiliau a thalentau, i'w helpu i feddwl am yrfaoedd y gallen nhw ddymuno eu dilyn yn y dyfodol.

Amser  
30-60 munud

### Cardiau gwag

Rhowch ddau i bedwar cerdyn gwag yr un i'r dysgwyr a gosod tasg ymchwil i ddod i wybod am swyddi eraill. Mae'n bosibl defnyddio hyn fel tasg gwaith cartref neu ei chwblhau yn yr ysgol. Gadewch i'r myfyrwyr gyfweled â chi a llenwi eu cerdyn gyrfa cyntaf; Athro.

## Amrywiadau/ehangu ar y gweithgaredd

Gwnewch y gweithgaredd yn dipyn o hwyl drwy ofyn i'r dysgwyr wisgo i fyny ar gyfer y swydd maen nhw'n ei hoffi. Gallai fod yn wisg anffurfiol dylunydd digidol neu wisg ffurfiol perchennog busnes. Efallai y bydd ganddynt ffôn cardfwrdd neu rolyn o 'lasbrintiau pensaer'. Gallech chi drefnu ymweliadau gan bobl â gyrfaoedd anarferol i'w hysbrydoli yn fwy. Efallai yr hoffech chi archwilio canfyddiadau o lwyddiant a gwerth. Gallech chi gynnal dadl dosbarth ynghylch gwerth a phwysigrwydd gwahanol swyddi.

Cyflwynwyd gan: